Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru
National Music Service Wales

Newyddlen #3 **Medi / Hydref 2023**

# Adfer Ensemblau

**Ers amser maith, bu gan Gymru enw da am gynhyrchu talent gerddorol. Mae plant a phobl ifanc sydd wedi profi'r wefr o fod yn aelodau o ensemblau dros y blynyddoedd wedi elwa yn enfawr, yn gerddorol ac o ran eu lles fel unigolion.**

Dros y ddegawd neu fwy ddiwethaf, bu dirywiad sylweddol yn niferoedd y cyfleoedd i blant a pobl ifanc greu cerddoriaeth gyda'i gilydd. Roedd cynnal ensemble drwy wasanaethau cerddoriaeth lleol, ac yn arbennig ensemble rhanbarthol yn eithriadol o heriol yn ariannol gyda niferoedd yn gostwng, ac fe wnaeth pandemig COVID-19 grebachu'r cyfleoedd yna hyd yn oed yn fwy. Nawr mae'r Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol yn gweithio ochr yn ochr gydag amrywiaeth eang o sefydliadau i adfer y cyfleoedd ma - a datblygu rhai newydd - i sicrhau cyfleoedd rhwydd i blant a phobl ifanc gael gymryd rhan a chreu cerddoriaeth, mewn ysgolion a lleoliadau ledled Cymru.



Dros y misoedd diwethaf mae'r gwasanethau cerdd lleol wedi bod yn canolbwyntio ar adfer rhai o'r cyfleoedd yma i blant gyd-weithio, a braf yw gallu rhannu bod tri chynllun ensemblau rhanbarthol ar y gweill eleni. Un o brif gryfderau y Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol (GCC) yw galluogi pawb i gyd weithio ar sawl lefel. Gyda dyfodiad cyfarfodydd rhanbarthol newydd y GCC, mae hynny wedi ein galluogi i adnabod bylchau mewn gwaith ensemble, a chyd -weithio i adfer ensemblau traws-sirol sydd yn gam pwysig ar lwybr datblygiad cerddorol a chymdeithasol ein cerddorion ifanc.

**Y De-ddwyrain:**
Am ddeuddydd dros hanner tymor mis Hydref bu Côr Rhanbarthol y Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol yn cyfarfod yn Ysgol Uwchradd Caerdydd, lle bu plant ym mlynyddoedd 8-13 o ysgolion y de-ddwyrain yn derbyn hyfforddiant llais, ac yn cyd-ganu mewn cyngerdd.

**Y Gorllewin:**
Braf yw cael adrodd y bydd Cerddorfa'r Chwe Sir yn cael ei adfer haf nesaf.

**Y Gogledd:**
Y cynllun yn y gogledd ydy adfer y Band Chwyth, y Cor a'r Band Taro yn ystod tymor y gwanwyn.

Ond nid ar lefel rhanbarth yn unig mae'r gwaith o adfer ensemblau wedi bod yn digwydd. Mae nifer fawr o ensemblau wedi cael eu creu, neu eu hadfer, mewn siroedd unigol ar draws Cymru. Ers mis Medi mae ymarferion bandiau chwyth, grwpiau llinynnol, cerddorfeydd cynradd ac uwchradd, corau, ensembles lleisiol wedi bod yn mynd rhagddynt. Ac mae sawl esiampl o ensembles newydd y tymor yma hefyd. Yng Ngwynedd a Môn mae dau ensemble newydd - y Gerddorfa ar gyfer offerynwyr cerddorfaol, ac yna grwp gitâr newydd sbon. Os ydych chi'n byw yn ardal Castell Nedd- Port Talbot mae ganddyn nhw Gôr newydd ar eich cyfer. Ac yn Sir Benfro mae Côr Cymunedol newydd i bobl ifanc dros 16 oed yn ymarfer ar gyfer Cyngerdd Nadolig arbennig. Ac mae'r math yma o ddatblygiadau yn digwydd hyd a lled Cymru erbyn hyn.

Fe benderfynodd rhai gwasanaethau cerdd siroedd i bartneriaethu gyda sefydliadau eraill er mwyn gallu cynnig profiad ychwanegol i'r cerddorion ifanc. Un enghraifft o hyn ydy **Band Chwyth Ceredigion**, sydd wedi dechrau ymarfer ar y cyd gyda Band Chwyth Prifysgol Aberystwyth, o dan arweiniad Rhys Taylor. Ddechrau mis Hydref bu aelodau o Fand Pres Ieuenctid Castell Nedd-Port Talbot yn cymryd rhan mewn prosiect Ochr yn Ochr gyda myfyrwyr cerddoriaeth o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Band y Cory. Ac mae sawl enhraifft arall o gyd-weithio deinameg rhwng y gwasanaethau cerdd lleol a phartneriaid eraill wedi bod hefyd, sy'n dangos yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael ac sy'n cael eu trefnu ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru.

Yn Wrecsam mae aelodau o Fand Pres Cymunedol Ieuenctid Bellevue wedi ymuno â **Band Pres Dinas Wrecsam**. Yn sgil y cynydd yn nifer y chwarewyr pres yn yr ardal ers y buddsoddiad mewn addysg gerddorol drwy Grwp Cyd-Weithredol Wrecsam a Sir Ddinbych, mae niferoedd y band ifanc yma wedi chwyddo, gyda rhai o'r plant yn cael yr hyder i ddatblygu eu gallu ar offeryn yn fwy o'r herwydd.

## Ensemble Sir Caerffili

*Cynhaliodd Gwasanaeth Cerdd Caerffili gwrs ensemble deuddydd ym Maenordy Llancaiach Fawr ym mis Hydref 2023. Roedd y cwrs yn agored i ddisgyblion blynyddoedd 6 - 13 sydd ar hyn o bryd yn gweithio ar safon Gradd 1 ac uwch mewn Llinynnau, Chwythbrennau, Pres, Telynau ac Offerynnau Taro. Nod y cwrs oedd cynnig profiad ensemble i'r plant hynny oedd yn cael gwersi offerynnol o fewn ein Gwasanaeth Cerdd ni, ond nad oedden nhw ar hyn o bryd yn cael mynediad i'r ensembles sirol wythnosol rhad ac am ddim. Y gobaith oedd annog aelodau ensemble sirol newydd tra'n cynnig profiad trochi i ddisgyblion yr ensemble presennol.*

*Roedd y cwrs yn llwyddiant ysgubol, gyda dros 70 o ddisgyblion yn mynychu'r ddau ddiwrnod. Bu Cerddorfa Llinynnol y Sir, Band Chwyth, Ensemble Telyn ac Ensemble Taro i gyd yn gweithio gyda thiwtoriaid profiadol Gwasanaeth Cerdd Caerffili nid yn unig i ddysgu darnau grŵp i'w perfformio i rieni, ond hefyd i ddod at ei gilydd i chwarae fel cerddorfa lawn.*

*Roedd yr effaith ar yr ensembles sirol yn sydyn - tyfodd niferoedd yn y grwpiau sirol yn wythnosol, ac mae Gwasanaeth Cerdd Caerffili yn hyderus y bydd y duedd hon yn parhau gydag annogaeth.*

*Mae cynlluniau ar gyfer cyrsiau pellach y flwyddyn academaidd hon ar gyfer grwpiau Roc a Phop, ynghyd â chwrs i ddechreuwyr a chwrs ensemble sirol diwedd blwyddyn.*

**Andrew Mantle**
Gwasanaeth Cerdd Sir Caerffili





## Y Gerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol

Ym mis Medi fe ddechreuodd y **Gerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol** ar ymarferion am y tro cyntaf erioed. Y Gerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol (NOYO) yw'r ensemble ieuenctid cenedlaethol cyntaf yn y byd o dan arweiniad pobl anabl. Mae'n hybu rhagoriaeth gerddorol ac yn rhoi llwybr dilyniant i rai o gerddorion ifanc anabl ac nad sy'n anabl mwyaf dawnus y DU.

Partneriaeth ydy hon rhwng y Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC. Mae'n hyfryd gweld cyfle yma i bobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ddod at ei gilydd i ymarfer a pherfformio gyda'i gilydd fel rhan o ensemble cynhwysol.

Bydd y criw yma, sydd rhwng 11 a 25 oed hefyd yn dod ynghyd gyda cherddorion o Ganolfannau NOYO eraill yn Llundain, Bryste, Birmingham a Bournemouth am gyfnod preswyl blynyddol, ac i gynnal cyngherddau ensemble cyfan o dymor y Gwanwyn 2024. Gallwch ddarganfod mwy o wybodaeth am y gerddorfa drwy ymweld a gwefan Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

## Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru

Bu'n haf eithriadol o brysur unwaith eto i aelodau **Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru**, **Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru** a **Chôr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru**, wrth iddyn nhw berfformio i gyfanswm o 3,400 o bobl mewn cyngherddau led led Cymru. Mae'r ensemblau Cenedlaethol yma ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sydd unai wedi eu geni yng Nghymru neu sy'n byw yma nawr.

Ym mis Gorffennaf, bu **Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru** yn perfformio mewn cyngherddau ym Mangor, Aberystwyth a Chaerdydd. Ddechrau Awst daeth **Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru** at ei gilydd I ymarfer a pherfformio ym Mangor, Llanbedr Pont Steffan a Chaerdydd, yn ogystal â dwy ŵyl, yn Nhyddewi. Ac yn goron ar haf o ddigwyddiadau i'r perfformwyr ifanc fe wnaeth **Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru** berfformio mewn cyngherddau ym Mangor a Chaerdydd, yn ogystal â gŵyl yn Nhyddewi.

Braf hefyd oedd clywed bod CCIC wedi derbyn mwy o geisiadau ar gyfer ensembles 2023/24 nac erioed o'r blaen. Wedi'r Dyddiad cau ddechrau mis Hydref, roedd



124 o bobl ifanc wedi gwneud cais i ymuno â'r Cor eleni – gan gynnwys nifer oedd heb ganu mewn côr o'r blaen, ac sydd wedi bod yn derbyn Cymorth drwy raglen '**Sgiliau Côr**' CCIC.

Fe wnaeth 214 o bobl ifanc gais am le yn y Gerddorfa a'r Band Chwyth, sy'n gynnydd o 18% ers y llynedd. Mae hyn yn newyddion ffantastig! Ein bwriad drwy'r gwaith adfer ensemblau ydy y bydd y niferoedd yna'n codi hyd yn oed yn fwy yn y blynyddoedd i ddod wrth i mwy a mwy o blant gael y profiad o gyd-weithio mewn ensembles yn nes at adref.

Darllenwch fwy yma: Y nifer uchaf erioed o gerddorion ifanc ledled Cymru yn gwneud cais i ymuno â Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru – Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru (ccic.org.uk)



Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government



## D.S.

**Yn ein newyddlen ry'n ni am roi'r cyfle i chi ddod i nabod rhai sy'n ymwneud âg addysg gerdd yng Nghymru. Dros yr haf, fe benodwyd Evan Dawson yn Brif Weithredwr Newydd Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru. Diolch i Evan am gytuno am fod y cyntaf i ateb ein cwestiynnau!**

Enw:
**Evan Dawson**
Swydd:
**Prif Weithredwr newydd Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru**

### 1
### Ble gawsoch chi eich magu?

*Bachgen o Gaerdydd ydw i. Es i i ysgolion Melin Gruffydd a Glantaf, sydd ill dau yn rhai cyfrwng Cymraeg. Treuliais lawer o wyliau haf hapus ym Mhenrhyn Gŵyr a Sir Frycheiniog, lle mae'r rhan fwyaf o'm teulu wedi'u lleoli. Rwy'n dal i fwynhau cerdded yng nghefn gwlad yno, ac rwy'n gwneud hynny ar bob cyfle. Mae fy mab Rufus bellach yn 13 oed, felly mae wedi bod yn wych ailddarganfod natur a bywyd gwyllt Cymru trwy ei lygaid e.*

### 2
### Ydych chi'n cofio eich profiad cerddorol cyntaf chi?

*Roedd fy mam yn rhedeg Gŵyl Jazz Aberhonddu pan oeddwn yn ifanc iawn. Cwrddais â cherddorion byd-enwog fel Sonny Rollins, Gerry Mulligan a Pat Metheny ymhell cyn i mi ddeall pwy oedden nhw. Mae'n dal yn ymddangos yn rhyfeddol i mi fod y sêr Americanaidd anferth hyn wedi dod yr holl ffordd i Aberhonddu i berfformio yn Neuadd y farchnad, a oedd yn dal i fod ag arwyddion am bysgod ffres a chacennau cartref yn hongian ar y waliau. Clywed Sonny Rollins yn chwarae wnaeth fy ysgogi i ddysgu'r sacsoffon wedyn..*

### 3
### Chi ydy Prif Weithredwr newydd CCIC. Beth ydych chi'n gobeithio ei gyflawni dros y blynyddoedd nesaf?

*Mae ymwneud â cherddoriaeth a'r celfyddydau wedi trawsnewid fy mywyd. Yn ystod fy ngyrfa, rwyf wedi cyfarfod â channoedd o blant a phobl ifanc sydd wedi elwa o'r un profiadau a mi - o ystadau tai yn Llundain, i ysgolion arbennig yn yr Alban, i gymunedau anghysbell yng Ngorllewin Cymru. Fodd bynnag, rwy'n poeni bod llawer gormod o bobl ifanc yn dal i fethu'r cyfle hwn, ac efallai, yn hytrach, yn treulio eu holl amser yn chwarae gemau cyfrifiadurol neu yn ymgolli eu hunain am oriau yn y cyfryngau cymdeithasol. Ar hyn o bryd ry'n ni'n rhedeg y Côr Ieuenctid Cenedlaethol, Cerddorfa a Band Pres, ac ystod eang o ensemblau a phrosiectau eraill. Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, rwyf am i Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ymuno â sefydliadau eraill drwy ysbrydoli, cefnogi a chysylltu pobl ifanc drwy'r celfyddydau, ar bob lefel gallu, ledled Cymru gyfan.*

### 4
### Sut fydd y Cynllun Cerdd Cenedlaethol yn eich cynorthwyo chi?

*Mae'r Cynllun Addysg Cerddoriaeth Cenedlaethol yn rhan hanfodol o sut y gallwn weithio gydag ysgolion, rhanbarthau ac awdurdodau lleol i hysbysu pobl ifanc am gyfleoedd cerddorol, ac i ddeall sut mae pobl ifanc eisoes yn datblygu'n gerddorol mewn gwahanol rannau o Gymru. Gweithio mewn partneriaeth yw'r ffordd orau bob amser, a bod yn glir iawn am yr hyn sy'n gweithio'n dda yn barod, fel bod pawb yn gallu dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae'n gyfnod cyffrous iawn!*

### 5
### Beth yw'r gyngerdd orau i chi fod iddo erioed?

*Dau gyngerdd diweddar sy'n dod i'r meddwl... Mae'r Dovetail Orchestra ym Mryste yn grŵp o ffoaduriaid a cheiswyr lloches, sy'n ymarfer, yn cyd-greu ac yn perfformio'n rheolaidd gyda cherddorion y DU. Mae'n syfrdanol clywed eu straeon, trwy'r cyfuniad unigryw hwn o offerynnau a genres, a gweld y cyfeillgarwch sydd wedi deillio o hynny... A chyngerdd anhygoel arall a glywais yn ddiweddar oedd Jacob Collier gyda'i fand. Rydw i wedi bod yn ffan ohono ers blynyddoedd lawer, ers ei arbrofion cynnar ar YouTube. Mae'r llawenydd pur sy'n tywallt ohono, trwy rinwedd mor ddiymdrech i'w weld, yn gwbl ysbrydoledig..*

# Newyddlen #3






## Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd

Fe gawson ni wythnos arbennig iawn ar faes yr **Eisteddfod Genedlaethol** ym Moduan ym mis Awst. Rhaid diolch i Wasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn am adael i ni rannu safle gyda nhw er mwyn medru rhannu'r newyddion am y Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol i'r miloedd o bobl a fu'n ymweld.

Cafwyd gweithdai offerynol gydag artistiaid fel Gai Toms, sesiynnau lwcaleili, perfformiadau, ymarferion a lot fawr iawn o hwyl a sŵn yn y babell yr wythnos honno. Braf hefyd oedd cael croesawu y Gweinidog Addysg, Jeremy Miles, i'r babell, ac fe gawson ni drafodaeth eithriadol o bositif a buddiol gydag ef am lwyddiannau'r Cynllun Cerdd hyd yn hyn, ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol a'r heriau sy'n wynebu ein gwasanaethau cerdd.



## Profiadau Cyntaf

Mae ein rhaglen waith **Profiadau Cyntaf** yn mynd o nerth i nerth, ac mae'n rhaid llongyfarch y gwasanaethau cerdd lleol am fwrw ati gydag arddeliad i sicrhau fod plant yn cael cyfle i greu cerddoriaeth gyda'i gilydd yn y dosbarth yng nghwmni cerddor profesiynnol. Y nod yw cyrraedd ein ysgolion cynradd i gyd cyn diwedd 2025, ond mae data ein blwyddyn gyntaf yn dangos ein bod wedi cyrraedd ymhell dros hanner ein ysgolion cynradd yng Nghymru yn barod, a hynny ddim ond hyd at Haf '23! A gan mai 'ensemblau' yw ffocws ein newyddlen yr hanner tymor hwn, mae sawl stori hyfryd am lwybro o Brofiadau Cyntaf i ensemblau, sydd yn wir yn profi gwerth y rhaglen bwysig hon.

Mae tri o blant a gwblhaodd Profiadau Cyntaf yn Ysgol Bro Ingli ac Ysgol Llanychllwydog yn Sir Benfro, ac yna symud ymlaen i'n Ensemble Second Steps yn Ysgol Bro Gwaun, wedi symud i Gerddorfa Hyfforddi Ieuenctid Sir Benfro! Rydyn ni'n falch iawn ohonyn nhw i gyd, ac o Wasanaeth Gerdd Sir Benfro sydd wedi hwyluso'r daith hon i'r tri cerddor ifanc.

Mae profiadau tebyg yn cael eu rhannu i ni gan ein gwasanaethau cerdd led-led Cymru, a'r gorchwyl nesaf i ni fel Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol ydy sicrhau bod y camau nesaf yn cael eu rhoi yn eu lle er mwyn sicrhau parhad o siwrnau cerddorol disgyblion.

## Fforwm Agored

Ar ddydd Mawrth, 14 Tachwedd, fe gynhalion ni ein **Fforwm Agored** cyntaf erioed yn Pontio, Bangor. Pwrpas y Fforymau yma ydy rhoi gofod i ddysgu mwy am waith y Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol, ac i rannu newyddion, cyfleoedd a datblygiadau o fewn y gymuned gerddorol ehangach. Bydd y fforymau hefyd yn darparu cyfle i drafod pynciau cyfredol yn y maes addysg cerdd, ac i rwydweithio.

**Yn ystod y sesiwn hon ym Mangor fe gawson ni :**

- Dddiweddariad am waith y Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol
- weithdy ar gerddoriaeth o fewn y Cwricwlwm i Gymru.
- drafodaeth banel ar lwybrau plant a phobl ifanc trwy addysg gerdd.
- gyflwyniadau gan rhai o bartneriaid allweddol y GCC.

Fe gawson ni hefyd berfformiadau arbennig wedi eu trefnu gan Wasanaeth Cerdd Conwy a Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn, ac fe fu cyfle hefyd i'r rheiny a ddaeth i rwydweithio gyda phartneriaid. Os fethoch chi a bod yno, bydd recordiad o uchafbwyntiau'r drafodaeth ar safle Fforwm Agored ein gwefan.

Bydd y Fforwm Agored nesaf yn digwydd ym Mhontypridd ar 28 Chwefror 2024. Ewch i chwilio am ein cyfryngau cymdeithasol am fwy o fanylion.

## Ein gwefan

Dros yr wythnosau nesaf fe fydd sawl parth newydd yn agor ar ein gwefan, felly cofiwch fynd i www.gwasanaethcerdd.cymru yn gyson i weld beth sy'n newydd yno.

Ry'n ni'n rhannu pob math o newyddion ar ein Cyfrifon Cymdeithasol, felly chwiliwch amdanon ni ar **Facebook**, **Instagram** ac **X**. Mae ganddon ni sianel YouTube newydd erbyn hyn, sydd â fideo o flwyddyn gyffrous gyntaf ein rhaglen waith, Profiadau Cyntaf. Mae lincs i'r holl safleoedd yma ar ein gwefan.



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
CLILC WLGA